

## Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff) Dwy Swydd ar gael

**Cyflog: £39,152 i £41,771 y flwyddyn**

**Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, Ewlo a gweithio hybrid**

**Llawn Amser (37 awr yr wythnos) - contract 12 mis**

**Ymunwch â thîm sy'n siapio dyfodol Gogledd Cymru!** Dyma gyfle cyffrous i ddod yn rhan o'n tîm rhanbarthol sy'n tyfu o fewn Gwasanaeth Cynllunio ar y Cyd Gogledd Cymru, a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint. Gan gydweithio ar draws saith awdurdod cynllunio lleol yng Ngogledd Cymru a Phowys, byddwch yn rhan o brosiectau sy'n ymestyn drwy dirwedd amrywiol iawn - o ardaloedd diwydiannol a threfol bywiog i amgylcheddau gwledig, arfordirol a mynyddig hardd.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?** Byddwch yn chwarae rhan allweddol i siapio dyfodol ein cymunedau. O ddarparu cyngor cyn ymgeisio a chyflawni ymweliadau safle i ymchwilio achosion a chynrychioli'r Cyngor mewn apeliadau a phwyllgorau, bydd eich gwaith yn cael effaith gwirioneddol. Byddwch hefyd yn cyfrannu tuag at bolisi cynllunio ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol - yn cynnwys ystod lawn y sbectrwm cynllunio. Hefyd, bydd gennych y cyfle i arwain ar rai o'n prosiectau mwyaf cyffrous a chymhleth, gan gynnwys mentrau cipio carbon ac ynni adnewyddadwy. Dyma eich cyfle chi i weithio ar flaen y gad o ran arloesedd technolegol, gan helpu i siapio tirweddau am genedlaethau i ddod. Er bod y rôl yn un dros dro ar hyn o bryd, rydym yn obeithiol y bydd y cyllid yn cael ei ymestyn i greu swyddi parhaol.

**Ydych chi'n barod i wneud gwahaniaeth?** Rydym yn chwilio am unigolion fydd yn dod ag arbenigedd cynllunio strategol ac yn meddu ar y radd berthnasol, yn ddelfrydol gydag Aelodaeth Siartredig o gorff proffesiynol megis RTPI, RICS, CIWM neu gymhwyster cyfwerth.
Os oes gennych brofiad cynllunio cyffredinol cryf, neu os ydych yn unigolyn graddedig gwych sy'n awyddus i ddechrau eich gyrfa cynllunio, hoffem glywed gennych chi. Mae siarad Cymraeg o fantais, ond nid yw'n hanfodol - byddwn yn eich cefnogi chi os hoffech ddysgu neu ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yn Sir y Fflint, rydym ni'n cynnig isafswm o 34 diwrnod o wyliau (pro rata) blynyddol, gan gynnwys gwyliau banc, sy'n cynyddu i 41 diwrnod (pro rata) • Polisi oriau gwaith hyblyg • Mynediad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol • Cynlluniau hael sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith • Gweithio'n Hybrid • Cewch fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd datblygu • Rhaglen cymorth i weithwyr yn rhad ac am ddim • Cynllun Beicio i'r Gwaith

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â: Hannah Parish, Rheolwr Cynllunio (Mwynau a Gwastraff), E-bost: hannah.parish@CynllunioGogleddCymru.cymru / Ffôn: 01352 703253

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council